



Canllaw Costau Ardrethu Asiantaeth y Swyddfa Brisio 2023 Nodyn Arweiniad – RHIFYN 8

Mae'r nodyn arweiniad hwn yn esbonio ac yn rhoi gwybodaeth ynghylch y fethodoleg a ddefnyddir wrth wneud addasiadau cyffredin i'r costau amnewid amcangyfrifedig ar gyfer eitemau sydd wedi'u cynnwys ynddo ynghyd â'r ffordd y cymhwysir yr addasiadau hyn.

Rhagair


Atgoffir defnyddwyr Canllaw Costau Ardrethu (RCG) 2023 bod y data sydd wedi'i nodi ynddo wedi'i gasglu o wahanol ffynonellau cymeradwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ffurflenni datgan statudol (tystiolaeth o gost wirioneddol)
- llyfrau pris
- Gwasanaeth Gwybodaeth Adeiladu (BCIS) y Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
- data gan weithgynhyrchwyr sydd ar gael ar-lein neu sydd wedi'i gyhoeddi
- achosion achos, lle bod yr astudiaethau achos hyn ar gael.

Mae'r lefelau prisiau ar gyfer pob cyfradd sydd wedi'u nodi yn RCG 2023 wedi'u haddasu i lefel pris cyfatebol. Mae hyn i adlewyrchu contract â gwerth o £4 miliwn sydd ar lefel Mynegai Pris Tendr o 329 a ffactor lleoliad o 1.

Mae RCG 2023 yn mabwysiadu Mynegai Pris Tendr Crynswth (TPI) y BCIS. Mae'r mynegai hwn yn olrhain tuedd lefelau prisiau contractwyr mewn tendrau a dderbyniwyd ac sydd yn y cam 'ymrwymo i adeiladu'.

At ddibenion RCG 2023, rydym wedi rhagweld bod lefel Mynegai Pris Tendr Crynswth (TPI) y BCIS ar y Dyddiad Prisio Rhagflaenol (AVD) sef 1 Ebrill 2021, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael ar drothwy'r AVD, sef 31 Mawrth 2021 neu chwarter cyntaf 2021.



Cynnwys

Er bod y rhestr gynnwys isod yn cynnig cysylltiad cyflym i adrannau amrywiol yr RCG, rydym yn argymhell bod unigolion nad ydynt wedi defnyddio'r RCG o'r blaen yn darllen y canllawiau yn eu cyfanrwydd cyn llunio unrhyw brisiau.

1. Rhagarweiniad.....	3
2. Sut i ddefnyddio'r Canllaw Costau Ardrethu	4
3. Gweithdrefnau	5
4. Sail y Costau	8
5. Ffactorau o ran Lleoliad.....	9
6. Addasiad Maint y Contract.....	10
7. Ffioedd a Chostau	11
8. Cam Dau Lwfans (ar gyfer cyfeirnod gwybodaeth a phrisio)	12
9. Cynnal a chadw'r Rhestrau Ardrethu.....	13
10. Cael copi o'r canllaw costau	14
11. Mynegai Costau Adeiladu Hysbys.....	14
12. Cyfradd Ddatgyfalafu	15
13. Ffactorau o ran Lleoliad.....	16
14. Addasiad Maint y Contract	32
15. Ffioedd a Chostau	32

1. Rhagarweiniad

Dyma'r wythfed rhifyn o Ganllaw Costau Ardrethu (Y Canllaw) Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

Noder: Cafodd y seithfed rhifyn y cyfeirir ato fel RCG 2021 ei ohirio.

Paratowyd y canllaw ar gyfer Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) i'w ddefnyddio'n unig mewn cysylltiad â pharatoi prisiadau sail contractwr ar gyfer Ailbrisiad Ardrethu 2023.

Ni ddylid defnyddio'r canllaw at unrhyw ddiben arall, megis paratoi prisiadau ar gyfer asedion neu asesiadau cost adfer (at ddibenion yswiriant). Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau bod yr wybodaeth a roddir yn y canllaw'n gywir, ni all y VOA dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw fath o golled sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth o'r fath at unrhyw ddiben arall oni bai am lunio prisiadau ar gyfer Ardrethu Annomestig (gan unrhyw berson).

Mae'r nodyn arweiniad hwn yn amlinellu'r sail (gweler y rhagair) a ddefnyddiwyd i lunio'r wybodaeth, yr addasiadau a'r ystyriaethau a argymhellir sy'n angenrheidiol wrth gynhyrchu amcangyfrifon cost newydd realistig a dibynadwy at ddibenion Ardrethu Annomestig yng Nghymru a Lloegr.

Gall y Llawlyfr Ardrethu a Nodiadau Ymarfer (yn benodol o ran Dosbarth) ddarparu cyfarwyddyd pellach i gymhwyso addasiadau a gynhwysir yn y canllaw hwn.

Mae'r Asiantaeth yn cydnabod cymorth Gwasanaeth Gwybodaeth Cost Adeiladu (BCIS) y Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) am ganiatáu cyhoeddi ei Fynegeion Pris Tindr ac addasiadau i Ffactorau o ran Lleoliad, sy'n darparu sail y tablau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn.

Lle bo hynny'n bosibl, mae gan bob cofnod yn RCG 2023 gynrychiolydd ar ffurf ffotograff o'r eitem sy'n cael ei disgrifio ac y mae cost yn cael ei darparu ar ei chyfer. Lle nad oes gennym lun perthnasol, neu os nad ydym wedi gallu dod o hyd i un, mae'r ymadrodd **"No Photograph Available"** wedi'i nodi.

Mae'r holl ffotograffau sydd wedi'u cynnwys yng Nghanllaw Costau 2023 ar ddibenion adnabod yn unig ac yn enghraifft "nodweddiadol" o eitem o fewn yr ystod dan ystyriaeth. Cafodd y ffotograffau eu tynnu mewn amgylchedd gwaith ac nid ydynt yn cynrychioli unig weithgynhyrchwyr yr eitem.

Yn gyffredinol, mae ffotograffau o adeiladau yn "nodweddiadol" o'r math o adeilad sy'n cael ei gynrychioli, tra bo lluniau o adeiladau "begwn" yn cynnwys yr eitem wirioneddol sy'n cael ei chostio. Bydd y manylion yn cael eu disgrifio yng nghorff y cofnod hwnnw yn y canllaw costau.

Mae'r holl gostau wedi'u cynhyrchu i ffurfio lefelau o gostau "newydd" at ddibenion ardrethu ar y Dyddiad Prisio Rhagflaenol (AVD), sef 1 Ebrill 2021. Bwriedir eu defnyddio wrth asesu Costau Amnewid Amcangyfrifedig (ERC) yr hereditament yng "Ngham Un" sail brisio'r contractwr.

Mae costau eitemau offer a pheiriannau yn cyfuno costau gwirioneddol sawl gweithgynhyrchydd ar gyfer yr eitemau “fel newydd”, wedi’u haddasu’n briodol o ran ardrethu prisio.

Mae costau adeiladau / eitemau sifil wedi’u hadeiladu gan ddefnyddio amrywiaeth o gostau adeiladu gwirioneddol a llyfrau pris cydnabyddedig y diwydiant.

Mae ERCau ar gyfer “eiddo begwn” wedi’u sefydlu lle bo hynny’n bosibl, gan ddefnyddio’r costau gwirioneddol sy’n berthnasol i’r hereditament begwn neu ran ohono. Ceir disgrifiad manylach ar sut i ddefnyddio addasiadau cost ac ystyriaethau eraill, a phryd y dylid gwneud hynny, yng nghorff y nodyn cyfarwyddyd hwn a’r atodiadau y ceir ynddo.

2. Sut i ddefnyddio’r Canllaw Costau Ardrethu

2.1 Cwmpas

Mae’r RCG yn darparu lefelau o gostau yn y Dyddiad Prisio Rhagflaenol (AVD) sef 1 Ebrill 2021 a bwriedir eu defnyddio wrth asesu Cost Amnewid Amcangyfrifedig (ERC) yr hereditament yng Ngham Un sail contractwr ar gyfer prisio.

2.2 Cyffredinol

Mae’r Asiantaeth wedi ymrwymo i fabwysiadu lefel unfurf a chyson o gostau wrth gynhyrchu prisiau sail contractwr at ddibenion Ardrethu Annomestig. Mae’r ffigurau Cost Amnewid Amcangyfrifedig (ERC) sydd wedi’u cynnwys yn yr RCG yn llywio sail ei brisiau gan fabwysiadu egwyddorion methodoleg brisio ar sail contractwr.

Wrth ddefnyddio’r RCG, yn hytrach na chwilio am yr eitem maent yn bwriadu ei phrisio, efallai y bydd angen i briswyr chwilio’n ehangach.

Er enghraifft, nid yw rhai costau ar gyfer Eitemau Dosbarth Arbenigol yn cynnwys gwaith allanol a dylid costio’r rhain ar wahân.

Bydd angen addasiad ychwanegol i’r costau sylfaenol sydd yn yr RCG o ran lleoliad a / neu faint y contract cyn gwneud unrhyw ychwanegiad ar gyfer ffioedd.

Ar gyfer pob eitem, mae’r costau sylfaenol sydd yn yr RCG yn adlewyrchu’r fanyleb fel y’i disgrifir. Mewn rhai amgylchiadau, gall y prisiwr addasu’r ERC sy’n ymddangos ar gyfer eitemau penodol er mwyn adlewyrchu unrhyw wahaniaethau rhyngddynt a’r fanyleb y disgrifir yn RCG 2023. Lle bydd manyleb eitem sydd i’w chostio’r un fath â’r hyn a nodir yn yr RCG, ni ddylid newid y gost heb y gymeradwyaeth ymlaen llaw.

Mewn achosion lle mae manyleb yr eitem yn wahanol i’r hyn a geir yn yr RCG, gellir pennu ffigur ERC priodol naill ai drwy allosod / rhyngosod neu drwy addasu’r gost ar gyfer eitemau o adeiladwaith tebyg, y gellir eu canfod mewn manau eraill yn yr RCG.

2.3 Rhifo

Mae gan bob eitem sy'n ymddangos yn y Canllaw Costau gyfeirnod unigryw. Mae'n bosib olrhain nifer o'r cyfeirnodau hyn yng Nghanllawiau Costau blaenorol.

Bydd cyfeirnodau unigryw newydd gan bethau sy'n newydd i'r Canllaw. Ni chaiff hen gyfeirnodau eu defnyddio eto.

Mewn rhai achosion, mae datblygiadau technolegol yn golygu nad yw rhai o'r enghreifftiau'n cael eu gweithgynhyrchu mwyach, er enghraifft gallai torwyr cylchedau olew gael eu disodli gan dorwyr cylched gwactod yn dibynnu ar y capasiti. Y gost a roddir yn yr RCG yw'r gost ar gyfer yr eitem amgen gyfatebol fodern

Mewn rhifynnau blaenorol o'r RCG, roedd darpariaeth ar waith i arallgyfeirio defnyddwyr yn awtomatig os oedd eitemau â chod wedi'u disodli a ffigurau newydd wedi'u mabwysiadu i adlewyrchu'r Ased Cyfatebol Modern (MEA).

Mewn ymgynghoriad ag arweinwyr y Panel Prisio a'r Cais Prisio Gweinydd Nad yw'n Swmp (NBS), cytunwyd bod gallu cynwysedig y taflenni NBS a Phrisio i nodi hen godau, bellach yn caniatáu dileu'r holl eitemau/hen godau, neu'r codau/eitemau segur. Mae'r ymarfer rhesymoli hwn yn sicrhau bod yr RCG dim ond yn cynnwys Asedau Cyfatebol Modern (MEAs), a'r mwyafrif ohonynt wedi'u diweddarau ar gyfer yr ymarfer Diwygiadol arfaethedig 2021. Lle nad yw hyn yn bosibl, gallai'r defnyddwyr weld rhybudd neu god gwall wedi'i nodi yn eu prisiau.

3. Gweithdrefnau

3.1 Cost Amnewid Amcangyfrifedig (ERC)

Rhaid paratoi cyfanswm ERC ar gyfer hereditament gan ddefnyddio'r cyfraddau ERC unigol sydd yn yr RCG. Yn ystod yr ymarfer hwn efallai y bydd angen cynnal sawl chwiliad ar y naill neu'r llall o'r canlynol: -

a) Yr hereditament (os yw'r eiddo yn gallu cael ei adnabod fel Eitem Dosbarth Arbenigol a'r bwriedir ei brisio fel eitem o'r fath) neu

b) Wedi'i adeiladu gan ddefnyddio cydrannau'r eitem, eiddo neu hereditament.

Wrth ymgymryd â'r ymarfer hwn, rhaid i'r prisiwr wneud y canlynol yn gyntaf; canfod a ellir costio'r eiddo, yn gyfan neu drwy ei rannau cydrannau.

Er enghraifft: Byddai Canolfan Gymunedol yn cael ei chostio fel un endid gan ddefnyddio'r wybodaeth berthnasol ar gyfer Eitemau Dosbarth Arbenigol. {Gweler cofnod y categori - Categori [Canolfannau Cymunedol] / Prif Eitem [Gofal Dydd] / Is-eitem [bach]} tra byddai'r gwahanol adeiladau, offer a pheiriannau, a strwythurau sy'n cynnwys Gwaith Trin Carthion yn cael eu costio mewn rhannau gan ddefnyddio costau ar gyfer Adeiladau, Elfennau Cyffredin a Strwythurau, ac Offer a Pheiriannau. {Gellir dod o hyd i'r rhain o dan y Rhestr o Gateoriau}.

Mae'n rhaid ystyried ac addasu pob ERC a ddewisir o'r Canllaw i adlewyrchu'r gwahaniaethau o ran manyleb (e.e. maint a / neu ansawdd) sydd rhwng yr eitem a ddewiswyd a'r eitem sy'n cael ei chostio. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud addasiad pellach i'r gost sy'n deillio o hyn i adlewyrchu cost wirioneddol yr eitem ar safle penodol ac fel rhan o gontract ar gyfer yr holl hereditament.

Unwaith y bydd cyfanswm yr ERC ar gyfer hereditament wedi'i bennu, yna bydd angen iddo adlewyrchu addasiadau ar gyfer lleoliad a maint y contract.

Dylid cymhwyso addasiadau o'r fath yn y drefn ganlynol:

- A) Lleoliad ([gweler adran 5](#))
- B) Maint y contract ([gweler adran 6](#))
- C) Ffioedd proffesiynol a chostau eraill ([gweler adran 7](#))

Noder: Dylid gwneud yr addasiadau i gyfanswm ERC, yn hytrach na gwneud hynny i bob cyfradd unigol (gweler paragraffau 5.6 a 6.6).

Dylid defnyddio'r naill neu'r llall o'r Taenlenni Sail Contractwr y Gweinydd Di-Swmp (NBS) perthnasol:

- a) Taenlen Generig y Contractwr;
- b) Y Daenlen Offer a Pheiriannau sydd wedi'i chynllunio'n benodol ac sy'n cynnwys offer a pheiriannau (P&M) gwyrdd ar hereditament sy'n cael ei brisio gan ddefnyddio'r dull prisio rhent; neu
- c) Taenlen a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer prisio'r pwnc dan sylw (e.e., Gwaith Trin Carthion).

Mae pob taenlen yn gallu gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol:

- a) Addasu costau yn awtomatig ar gyfer lleoliad, ffioedd a maint y contract
- b) Darparu'r cyfleuster i gymryd yr addasiadau hyn i ystyriaeth wrth brisio hereditament neu
- c) c) Darparu'r cyfleuster i actifadu'r uchod yn awtomatig gan ddefnyddio'r cyfraddau a bennir yn y canllaw hwn.

Mae pob eitem P&M yn destun i addasiad o ran maint y contract a'r ffioedd. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus gan sicrhau nad yw'r ffactor o ran lleoliad yn cael ei gymhwyso er mwyn addasu eitemau y mae'r RCG yn nodi nad ydynt yn destun i addasiad y ffactor o ran lleoliad (cyfeiriwch at gofnodion eitem unigol yn RCG). Drwy ddefnyddio'r "cod" cywir (gweler y daenlen) bydd yr addasiadau o ran lleoliad yn cael eu hychwanegu'n awtomatig lle bo'n briodol wrth ddefnyddio'r cymhwysiad NBS.

Datblygwyd Taenlen Generig y Contractwr (2023) i sicrhau bod yr holl brisiadau sydd o fewn yr un categori arbenigol (SCAT) yn cael eu cynhyrchu mewn fformat tebyg a bod pob cam o'r prisiad yn cael ei wneud yn y drefn ofynnol.

Bydd defnyddio'r daenlen yn cyfrifo'r addasiadau hyn yn awtomatig yn y drefn ragnodedig o ran ffactorau lleoliad, addasiadau maint contract a lwfansau (gan gyfeirio at oedran yr eitem dan ystyriaeth).

Bydd y daenlen diwydiant yn caniatáu i'r lleoliad, y ffioedd a'r addasiadau maint contract perthnasol gael eu gwneud i brisiad ar sail cymharu rhent ond sydd angen eitemau P&M wedi'u hychwanegu.

Mae cofnodi cyfeirnod unigryw'r Canllaw Cost ar gyfer eitemau unigol yn bwysig wrth ddefnyddio'r taenlenni. Bydd defnyddio taenlen Generig y Contractwr (2023) ynghyd â chodau penodol yn atal gwallau mewn ychwanegiadau ffactorau o ran lleoliad, ayb, ac yn uno'r dull ar gyfer eiddo tebyg o fewn yr un cod SCAT.

3.2 Cost Amnewid Addasiad (ARC)

Mae cam dau o ddull sail y contractwr ar gyfer prisio yn ceisio addasu'r costau a gafwyd yng Nghyfnod un (ERC) i adlewyrchu unrhyw wahaniaethau, amrywiadau neu ddiffygion wrth gymharu'r eitem wirioneddol sy'n cael ei hystyried â'r eitem a enwir yn yr RCG. Dylid gwneud yr addasiadau hyn i gostau ERC unigol a gafwyd yng Nghyfnod un, gan eu bod yn debygol o amrywio o eitem i eitem.

Mae'r canllawiau o'r Llawlyfr Ardrethu ar y Sail Contractwr yn rhoi manylion ar sut i addasu ERC i ARC gan gynnwys graddfeydd safonol o lwfansau. Bydd Nodiadau Ymarfer Reval 2023 yn rhoi manylion am unrhyw raddfeydd pwrpasol i'w mabwysiadu.

3.3 Defnyddio'r Rhaglen NBS ac Addasu Maint y Contract

Bydd maint y contract yn cael ei bennu ar sail cyfanswm ERC bob tro (ac eithrio elfen o ran tir). Mae'r daenlen NBS yn addasu'n awtomatig ar gyfer yr eitemau hyn a dylid ei defnyddio bob amser wrth brisio hereditament ar sail rhent gymaradwy, os bydd angen prisio pum eitem neu fwy o beiriannau ac offer. Mae angen disgresiwn os ydych yn delio â llai na phum eitem o P&M ond efallai y bydd y daenlen NBS yn dal i brofi'n fwy cyfleus na gwneud y cyfrifiad â llaw.

Er y gallech fod yn cynnal prisiad, mae angen i'r mwyafrif o'r hereditament ar sail rhent fod yn amcangyfrif o'r ERC tebygol ar gyfer gwerth yr adeiladau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y ffioedd ac addasiadau maint y contract yn cael eu gwneud yn gywir. Dylid defnyddio addasiad maint y contract pan fydd gwerth ardrethol yr "adeiladau" yn gallu cael eu nodi er mwyn cyfrifo ffigwr cost amcangyfrifedig ar gyfer yr adeiladau.

Yn y bôn, tybir bod yr holl hereditament, gan gynnwys P&M, yn cael ei gynnwys mewn un contract adeiladu, er eich bod yn prisio ar sail rhent yn bennaf, ac mae'r cyfleuster hwn yn cyfrifo addasiad cywir maint y contract.

Bydd yr ychwanegiad o ran ffioedd at yr ARC o'r un ganran â'r un a gymhwysir i'r ERC - dyma o ble daw cyfanswm y ganran. Pan fo ffi yn berthnasol dylid lleihau hyn yng nghymhareb ARC i ERC.

4. Sail y Costau

4.1 Mae'r costau ar gyfer categorïau unigol wedi cael eu paratoi yn unol â'r canlynol:

- a) Mae'r hereditament cyfan wedi'i adeiladu mewn contract unigol gan gymryd bod tendro cystadleuol yn y farchnad agored. Noder: Mae estyniadau ac addasiadau yn aml yn cynnwys costau ychwanegol ac yn defnyddio cyfleusterau presennol, nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau a roddir.
- b) Mae angen cyfanswm yr ERC ar gyfer yr holl hereditament yn seiliedig ar gostau / prisiau sy'n bodoli yn yr AVD
- c) Tybir bod safle lefel clir heb yr angen am waith anarferol.
- d) Mae pob prif wasanaeth (lle bo angen) ar gael gerllaw'r safle.
- e) Ar y dyddiad prisio rhagflaenol, amcangyfrifir bod y mynegai pris tendr a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu RICS (BCIS) yn 329.

Noder: 329 yw'r ffigwr a fabwysiadwyd gan y VOA at ddibenion yr RCG hwn sef y 1 Ebrill 2021 (AVD) ([gweler adran 11](#)).

Noder: Mae mynegai'r Gwasanaeth Gwybodaeth Cost Adeiladu RICS (BCIS) yn berthnasol i

ADEILADAU yn unig.

- f) Bydd ffigurau ERC ac Eitemau Dosbarth Arbenigol wedi deillio o gostau mewn amrywiaeth o leoliadau, ond mae'r dadansoddiad yn addasu'r holl gostau hyn i ffactor o 1.00 o ran lleoliad.

Noder: ([gweler adran 5](#)) am addasiadau o ran lleoliad.

- g) Nid yw ffioedd proffesiynol, na thaliadau eraill, yn cael eu cynnwys yn y cyfraddau oni nodir yn wahanol. **Noder:** ([gweler adran 7](#)) am ffioedd a chostau eraill.

- h) Nid yw Treth ar Werth (VAT) wedi cael ei chynnwys yn unrhyw un o'r costau.

- i) Mae'r holl gostau ERC yn adlewyrchu cyfraddau ar gyfer contract â gwerth o £4 miliwn.

Noder: Gweler ([gweler adran 6](#)) ynghylch addasu maint y contract.

Mae'r ffigyrau o ran cost yn berthnasol i'r uned fesur a ddangosir ym mhob achos

Noder: Ar gyfer y rhan fwyaf o adeiladau, yr uned berthnasol yw'r Ardal Mewnol Gros (GIA) fel y'i diffinnir yng [VOA Code of Measurement Practice for Rating](#).

4.2 Addasu costau o Eitemau Offer a Pheiriannau

Mae'r ffigyrau sy'n ymddangos yng ngholofnau ERC wedi'u haddasu'n llawn i ystyried y canlynol:

- a) Dylunio, cynhyrchu, cludo i'r safle, gosod, profi a chostau sy'n ymwneud â lleoli'r eitem ar y safle.
- b) Mae'r holl gostau eraill sy'n ymwneud â gosod eitemau P&M penodol wedi'u cynnwys yn yr ERC a ddarperir ac mae'n annhebygol y bydd yn rhaid ystyried addasiadau pellach. Nodir manylion llawn yr hyn sy'n cael ei gynnwys ar hyn nad

yw'n cael ei gynnwys ar gyfer pob eitem yn erbyn yr eitem berthnasol yn y Canllaw Cost.

- c) Mae'r costau ychwanegol a godir gan y prif contractwr ar gyfer gosod yr eitem P&M ar y safle h.y. darparu diogelwch, cyfleusterau glanweithiol a lles ar gyfer cyflogaion y gweithgynhyrchwyr, trydan ar y safle, cyflenwad dŵr a goleuadau dros dro, craeniau sefydlog a sgaffaldau sefydlog er enghraifft, [a *elwir yn rhagarweiniadau neu argostau*], wedi'u cynnwys yn y ERC. Nifer yr eitemau sydd yn yr addasiad. Nid yw'r costau yn yr RCG yn cynrychioli cost eitem sengl lle disgwylir y byddai'r eitem hwnnw ar safle nodweddiadol lle byddai sawl eitem debyg. Tybir bod yr eitem yn rhan o "ganolfan ddiwydiannol arbenigol o faint cyfartalog". Felly, lle byddai'n arferol dod o hyd i fwy nag un eitem mewn hereditament o'r fath mae'r ERC a nodwyd wedi'i addasu i adlewyrchu unrhyw rif, gostyngiad maint. Mewn amgylchiadau felly **NID** ffigyrau un tro yw'r ffigurau.

5. Ffactorau o ran Lleoliad

5.1 Mae llawer o newidynnau lleol yn effeithio ar gost adeiladu (adeiladau a pheirianeg sifil), gan gynnwys y galw am gyflenwad llafur a deunyddiau. Mae hyn yn dangos y tueddiad i rai ardaloedd o'r wlad gael lefelau tendro sy'n wahanol i eraill. Mae ymchwil a wnaed gan dîm BEAMS ar y cyd â BCIS wedi nodi'r holl ffactorau perthnasol sy'n ymwneud ag amrywiadau rhanbarthol sy'n effeithio ar gostau adeiladu.

5.2 Mae'r tabl Ffactorau o ran Lleoliad yn dangos lefelau prisio o gymharu â'r Cyfartaledd Cenedlaethol ac yn nodi'r ffactorau y mae'n rhaid eu defnyddio ym mhob prisiad gan contractwr. Darperir y rhain ar sail rhanbarthol yn seiliedig ar ddata'r BCIS o ran ffiniau ar gyfer y flwyddyn 2000. Ar gyfer Llundain rhennir y rhanbarthau'n wahanol fwrdeistrefi.

5.3 Mae pob eitem sydd angen cael ei haddasu o ran lleoliad yn cael ei nodi ar wahân yn yr RCG. Yn gyffredinol, **NI FYDD** eitemau P&M sydd wedi'u cynllunio a'u cynhyrchu at ddiben penodol gan gyflenwyr arbenigol dan gcontract ar wahân yn denu addasiad ffactor o ran lleoliad (e.e. cywasgwyr, pypiau a boeleri ac ati). Mae hyn oherwydd y bydd eitemau P&M a gynhyrchwyd yn denu, o fewn rheswm, yr un pris uned waeth beth yw'r lleoliad. Mae'r eitemau hyn fel arfer yn cael eu cynhyrchu oddi ar y safle.

Mae **Taenlen Generig y Contractwr** yn addasu'n awtomatig ar gyfer y ffactor o ran lleoliad rhwng eitemau P&M ac eitemau Sifil / Adeiladu. Mae'r addasiad digwydd gan gyfeirio at y math o god ar gyfer yr eitem sy'n cael ei chostio (gweler y daenlen berthnasol).

Wrth ddefnyddio'r Daenlen Sail Contractwr perthnasol, bydd yn addasu'n awtomatig i'r ffactor priodol o ran lleoliad ar gyfer yr hereditament yn seiliedig ar y ffactor a ddewiswyd o'r gwymplen.

5.4 Rhaid adlewyrchu unrhyw addasiadau o ran lleoliad ym mhob cyfrifiad ERC, cyn ychwanegu ffioedd proffesiynol.

5.5 Mae costau yn y Canllaw yn seiliedig ar gymedr y DU o 1.00. Bydd y ffactorau ar gyfer Cymru, a Lloegr, i'w gweld yn y canllaw o dan Ffactorau o ran Lleoliad ([gweler adran 5](#)).

5.6 I gynhyrchu'r gyfradd sy'n berthnasol i'r hereditament sy'n cael ei brisio, dylid lluosio pob cost unigol sy'n deillio o'r Canllaw, heblaw am P&M wedi'i weithgynhyrchu, gan y ffactor priodol o ran lleoliad cyn cyfrifo cyfanswm ERC neu cyn gwneud unrhyw addasiad i faint contract ([gweler adran 6](#)).

6. Addasiad Maint y Contract

6.1 Mae maint y contract yn cael dylanwad uniongyrchol ar brisiau tendro a bydd prosiectau bach fel arfer yn costio mwy fesul uned (prosiect) na rhai mwy. Er bod arbedion maint yn lleihau prisiau ar gontractau mwy, mae hyn yn dueddol o gael ei wrthbwysu mewn prosiectau mawr iawn gwerth miliynau o bunnoedd gan y nifer cyfyngedig o gontractwyr sy'n gallu eu cynnal. Gall hyn arwain at lai o gystadleuaeth a thebygolrwydd o gostau gweinyddu uwch.

6.2 Gellir dod ar draws ystod eang o gontractau o bob maint, a gall rhai o'r contractau hyn gymryd hyd at dair blynedd i'w cwblhau. O ganlyniad, gall y costau cyffredinol amrywio hyd at +/- 10%

Nid addasiad lwfans meintiau yw hyn ond lwfans sydd ar gael fel arfer yn adlewyrchu rheolaeth ddoeth cyfanswm yr arian dan sylw.

Y lleiaf yw maint y contract, y lleiaf yw'r cwmpas i arbed.

6.3 Mae pob cost ar gyfer **Eitem Dosbarth Arbenigol** yn yr RCG yn cael ei addasu ar gyfer contract gwerth £4 miliwn tybiannol. Bydd gwir gost yr hereditament hefyd yn cael ei ddangos. Pan ddefnyddir Eitem Dosbarth Arbenigol fel canllaw i gostio hereditament o faint gwahanol, efallai y bydd angen addasu'r costau sylfaenol hynny.

6.4 Mae Elfennau a Strwythurau Cyffredin yn y Canllaw Cost yn adlewyrchu maint y contract cyffredinol â gwerth o £4 miliwn ar ôl addasu o ran lleoliad ond cyn unrhyw ychwanegu unrhyw ffioedd proffesiynol (neu werth y safle).

Dylid ychwanegu'r ERC ar gyfer eitemau P&M at y ffigur hwn lle bo hynny'n berthnasol. Dylid defnyddio'r costau hyn ar gyfer y dosbarthiadau hynny lle bydd yr ERC yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio cyfraddau uned (mae hyn hefyd yn berthnasol lle mae eitemau P&M yn eitemau ychwanegol i eiddo ar gyfer cymharu rhent).

6.5 Os yw cost gronedig hereditament penodol (Sail Contractwr), neu gost gronedig y P&M ychwanegol (rhent adeiladau gydag ychwanegiadau o eitemau P&M) yn fwy neu'n llai na £4 miliwn, dylid gwneud yr addasiad priodol ar gyfer maint y contract gan ddefnyddio'r raddfa a ddangosir ([gweler adran 6](#)) Dylid gwneud hyn i adlewyrchu'r addasiadau sy'n uwch neu'n is gan roi ystyriaeth i'r ERC y byddai'n deillio o ganlyniad i hyn (ychwanegiad ECRau ar gyfer adeiladau a P&M ond nid ar gyfer y tir).

Mae taenlen Sail y Contractwr yn addasu'r prisiad yn awtomatig ar gyfer addasu maint y contract ac yn darparu'r cyfleuster i addasu maint y contract lle mae rhan o'r prisiad wedi'i wneud ar sail cymharu rhent.

Dylid costio hereditamentau sy'n cael eu prasio drwy gynllun yn unol â chyfarwyddiadau'r cynllun hwnnw. Mae rhai costau adeiladu arbenigol wedi'u haddasu i gontract gwerth £4m.

6.6 Dylid addasu maint y contract gan ddefnyddio **cyfanswm yr ERC**, ac eithrio'r elfen tir. (e.e., ar ôl gwneud addasiad o ran lleoliad ond cyn yr ychwanegiad ar gyfer ffioedd).

6.7 Mae'n ofynnol ychwanegu **CYFANSWM ERC** yr holl eitemau offer a pheiriannau at GYFANSWM ERC yr adeiladau i gyfrifo'r Addasiad Maint Contract cywir. Lle mae'r adeiladau'n cael eu prisio ar sail rhent gydag eitemau P&M wedi'u hychwanegu, nodwch RV yr adeiladau a gyfrifir ar sail rhent yn y blwch RV YCHWANEGOL AR GYFER CSA (ochr dde waelod y daenlen). Ni fydd unrhyw addasiadau nodweddiadol fel y nodir o dan adran 3.1 yn gymwys yn y sefyllfa hon - cyfeiriwch at BEAMS am arweiniad.

6.8 Defnyddio'r Cais NBS ar gyfer eiddo sy'n cael ei brisio ar gyfer rhentu ac Addasu Maint Contract

Dylid defnyddio'r daenlen NBS hyd yn oed ar gyfer eiddo sy'n cael eu prisio gan y sail rhenti lle mae'r eiddo hwnnw'n cynnwys peiriannau sylweddol. Mae 'arwyddocaol' yn golygu mwy na phum peiriant, neu eitemau o gost uchel. Mae angen disgresiwn os ydych yn delio â llai na phum eitem o P&M ond efallai y bydd y daenlen NBS yn dal i brofi'n fwy cyfleus na gwneud y cyfrifiad â llaw.

Er y gallech fod yn prisio mwyafrif yr hereditament ar sail rhent mae angen amcangyfrif o'r ERC tebygol ar gyfer gwerth yr adeiladau er mwyn sicrhau bod y ffioedd a'r addasiadau maint contract yn cael eu gwneud yn gywir. Er mwyn i'r NBS gyfrifo'r addasiad yn gywir bydd angen i chi nodi'r RV y gellir ei briodoli i'r 'adeiladau' yn y gell briodol yn yr NBS.

Yna bydd yr NBS yn cymhwyso addasiad maint y contract yn seiliedig ar gost dybiannol yr holl hereditament gan mai dyma'r sail a dybir yn null y contractwr o brisio.

7. Ffioedd a Chostau

7.1 Mae'r costau amnewid amcangyfrifedig yn yr RCG yn eithrio ffioedd proffesiynol a thaliadau eraill, sydd fel arfer yn daladwy ar gontractau cyffredinol lle cynhelir adeiladu, offer a pheiriannau a gwaith peirianneg sifil oni nodir yn y cofnodion unigol ar gyfer yr eitemau. Felly, dylid gwneud ychwanegiad canran cyffredinol i gwmpasu'r canlynol:

Ffioedd proffesiynol

Astudiaeth Dichonoldeb
Pensaer - cydlynnydd CDM
dylunio/tirwedd
Syrffewr meintiau
Peiriannydd ymgynghorol –
peiriannydd Mecanyddol/Trydanol
strwythurol/sifil

Taliadau eraill

Ymchwiliad safle
Cais cynllunio
Rheoliadau Adeiladu – ffioedd
rhagnodedig treuliau Proffesiynol

Mae rhai contractau mwy yn cael eu cynnal o dan reolaeth rheolwr prosiect. Gall hyn gynyddu cyfanswm y ffioedd sy'n daladwy.

7.2 Nid yw graddfeydd o ffioedd a argymhellir gan y cyrff proffesiynol yn orfodol, ond maent yn aml yn sail i drafodaethau ffioedd a chynigion ar eu cyfer. Mae cyfanswm y ffioedd sy'n daladwy yn ddibynnol i raddau helaeth ar werth, math a chymhlethdod y contract yn ogystal â lefel y gystadleuaeth.

7.3 Dylid ychwanegu'r canrannau ychwanegol canlynol at y costau amnewid amcangyfrifedig (ERC), ac eithrio gwerth y tir, a gynrychiolir gan gyfanswm holl gydrannau'r hereditament – gan gynnwys gwaith allanol – ar ôl addasu ar gyfer lleoliad ([gweler adran 5](#)) a maint y contract ([gweler adran 6](#)) lle bo'n briodol.

7.4 Gan y bydd ffioedd yn amrywio, yn enwedig yn dibynnu ar werth, math a chymhlethdod y contract, derbynnir na fydd yr ychwanegiadau canlynol ar gyfer ffioedd yn briodol ym mhob achos, ond **ni ddylid gwyro o'r dull hwn** gan y byddai hyn yn amrywio cysondeb y fethodoleg/dull a nodir yn y canllaw hwn.

7.5 Wrth ystyried tystiolaeth o ffioedd a thaliadau, yn enwedig y rhai a gafwyd gan Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill, mae'n bosib y bydd angen addasu costau o'r fath i fyny er mwyn caniatáu "ffioedd", sydd wedi'u hysgwyddo a'u hymgorfforwyd gan ddefnyddio staff proffesiynol "mewnol".

7.6 Dylid ychwanegu hyd at 4% arall at y graddfeydd uchod ar gyfer hereditaments o natur fwy cymhleth h.y. y rhai sydd â chynnwys mecanyddol a thrydanol uwch a / neu angen cydlynu dylunio manylach ([cliciwch am y mathau o hereditamentau sy'n dod o dan y categori hwn](#)).

7.7 Gall rhai hereditaments mawr (h.y. y rhai sydd ag ERC dros £10 miliwn), sy'n cael eu ffurfio o strwythurau cymharol syml o natur ailadroddus, ddenu ffioedd proffesiynol ar lefel is. Mewn achosion o'r fath, gall yr ychwanegiad ar gyfer ffioedd a thaliadau fod yn amrywiol. Fodd bynnag, gan ei bod hi'n bosib fod meini prawf eraill i'w hystyried ar wahân i werth y contract, dim ond ar ôl ystyried yn ofalus y dylid defnyddio'r raddfa ganlynol ([cliciwch am y mathau o hereditamentau sy'n dod o dan y categori hwn](#)).

8. Cam Dau Lwfans (ar gyfer cyfeirnod gwybodaeth a phrisio)

8.1 Dylid ystyried lwfansau yn unol â'r canllawiau a roddir yn yr Adran Llawlyfr Ardrethu 4, Rhan 3 – Sail Prisio'r Contractwr.

8.2 Mewn rhestrau blaenorol roedd y dull prisio yng Ngham 2 o Sail y Contractwr wedi ystyried graddfa o lwfansau ar gyfer darford corfforol sy'n gysylltiedig ag oedran a ddaeth o'r penderfyniad ym *Monsanto v Farris* (VO) (1998) RA 217. Yn dilyn penderfyniad y Tribiwnlys Uchaf, *Stephen G Hughes* (VO) ac Ymddiriedolaeth Amgueddfeydd ac Oriel Efrog [2017] RA/20/2015, cDwyrainynodd yr aelod mewn sylw orbiter gywirdeb cymhwyso'r "lwfansau Monsanto" i adeiladau ar wahân i rai diwydiannol (para 187):

"We do not criticise the widespread adoption of the Monsanto allowances in contractor's basis settlements relating to industrial buildings, but their use in industrial settlements lends them no additional credibility or relevance as a tool for valuing other types of building."

Yn dilyn y penderfyniad yn yr achos uchod derbyniodd y VOA gynnig i ailedrych ar y lwfansau a wnaed yng nghanam 2 o Sail y Contractwr ar gyfer adeiladau'r Brifysgol ar ddull Cost Amnewid Dibrisio (DRC) a geir yn fwy cyffredin mewn prisiadau asedau.

Mae'r VOA wedi creu graddfa o lwfansau sy'n efelychu "Bywyd" nodweddiadol gyffredinol ar gyfer hereditament Dylid defnyddio'r VOA PAFOAS (VOA Physical and Functional obsolescence adjustment Scales) i adeiladau o fath nad ydynt yn ddiwydiannol ac mae'n cynnwys un raddfa sy'n gysylltiedig ag oedran. ***Mae'r VOA wedi creu model sy'n cynhyrchu lwfansau diwygiedig sy'n efelychu Bywyd nodweddiadol cyffredinol ar gyfer hereditament, adeiladau dros dro neu hir oes dros adeiladau wedi'u peiriannu heb eu hystyried o fewn cwmpas y model ond gellid eu hadlewyrchu gyda setiau data eiledol o fewn y strwythur model VO presennol.***

Mae DRC yn ddull prisio a gydnabyddir yn fyd-eang ar gyfer eiddo arbenigol na ellir ei brisio drwy ddulliau mwy confensiynol. Mae ganddo debygrwydd agos â dull prisio sail y contractwr ar gyfer sgorio ac fe'i diffinnir fel cost bresennol ar gyfer disodli ased gyda'i ased cyfatebol modern llai'r didyniadau ar gyfer dirywiad corfforol a phob math perthnasol o ddarfodoldeb ac optimeiddio (Dull cost adnewyddu dibrisiedig o brisio ar gyfer adrodd ariannol RICS, Argraffiad 1af Tach 2018)

9. Cynnal a chadw'r Rhestrau Ardrethu

9.1 Yr RCG yw'r prif fodd o gydlyn costau, a dylai fod yn ganllaw ar gyfer costau a fabwysiadwyd yng nghanam 1 ar sail contractwr wrth baratoi prisiadau ar gyfer Rhestrau Ardrethu 2023.

9.2 Os yw apelwyr yn dymuno gwneud ymholiad am unrhyw ERCau o'r RCG a ddefnyddir wrth brisio hereditament, rhaid iddynt ddarparu eu tystiolaeth eu hunain i'r Swyddfa Brisio ei hystyried.

9.3 Bydd angen dadansoddi unrhyw "Dystiolaeth Newydd" a'r cymhwysiad priodol o addasiadau ail-sylfaenu i nodi unrhyw wrthdaro â'r wybodaeth bresennol yn yr RCG.

9.4 Pwrrpas yr RCG yw cyGogleddwyo gwerthwyr wrth baratoi prisiadau sy'n seiliedig ar gost. Mae'n ganllaw sy'n seiliedig ar gyngor a dderbyniwyd gan arbenigwyr sy'n costio Amgylchedd wedi'i Adeiladu'r Asiantaeth.

9.5 Mae'r Canllaw yn darparu lefelau cyffredinol o gyngor costau, ond byddai'n gamarweiniol ac yn anghywir i fabwysiadu costau uned yn syth o'r Canllaw. Mae angen addasu ymhellach ar gostau eitem o'r fath e.e., i adlewyrchu lleoliad a maint contract unrhyw hereditament.

9.6 Mae hefyd yn anghywir i osgoi unrhyw gamau o werthiant sail contractwr drwy roi sylw i ddadansoddiad ffigwr terfynol o eiddo tebyg honedig. Dylai pob cam (ar wahân i gyfradd dadfeddiannu statudol yng Nghanam 4) adlewyrchu costau safle-benodol, lwfansau ac addasiadau eraill.

9.7 Gallai mabwysiadu'r dull torri byr arwain at ffigyrau camarweiniol neu anghywir, hyd yn oed pan fo manylion llawn y dystiolaeth debyg yn hysbys, yn enwedig os oes angen addasiadau i'r ffigwr terfynol, y cynigir ei fabwysiadu.

9.8 Rhaid i'r costau a'r lwfansau sydd wedi'u cynnwys yn yr RCG barhau i fod yn bwynt cyfeirio sylfaenol.

10. Cael copi o'r canllaw costau

